# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 6

ACHOSION ARBENNIG

*Grwpiau corfforaethol*

### 77 Dynodi grŵp o gwmnïau

(1) Caiff ACC ddynodi dau gorff corfforaethol neu ragor yn grŵp at ddibenion y dreth.

(2) Gwneir dynodiad drwy ddyroddi hysbysiad i bob aelod o'r grŵp.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu—
- (a) y cyrff corfforaethol sy'n aelodau o'r grŵp;
- (b) pa aelod o'r grŵp yw'r aelod cynrychiadol;
- (c) y dyddiad y mae'r dynodiad yn cael effaith.

(4) Effeithiau dynodi grŵp yw—
- (a) bod aelod cynrychiadol y grŵp i'w drin at ddibenion y dreth fel gweithredwr pob safle tirlenwi awdurdodedig y mae aelod o'r grŵp yn weithredwr iddo;
- (b) bod rhaid i swm perthnasol y byddai'n ofynnol i gorff corfforaethol ei dalu fel arall o ganlyniad i unrhyw beth a wneir neu nas gwneir tra bo'n aelod o'r grŵp gael ei dalu, felly, gan yr aelod cynrychiadol yn lle hynny;

(c) bod rhwymedigaeth ar bob un o'r canlynol yn unigol ac ar y cyd mewn perthynas ag unrhyw ran o'r swm perthnasol sy'n parhau i fod heb ei thalu ar ôl y dyddiad erbyn pryd yr oedd yn ofynnol i'r aelod cynrychiadol ei dalu—

(i) pob corff corfforaethol a oedd yn aelod o'r grŵp ar adeg y weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gofyniad i dalu'r swm, a

(ii) unrhyw gorff corfforaethol arall a oedd yn aelod o'r grŵp ar y dyddiad erbyn pryd yr oedd yn ofynnol i'r aelod cynrychiadol dalu'r swm.

(5) Ni chaiff ACC ond dynodi grŵp o gyrff corfforaethol ar gais un neu ragor o'r cyrff hynny.

(6) Rhaid i gais i ddynodi grŵp gael ei gyflwyno mewn ysgrifen; a rhaid i'r corff neu'r cyrff sy'n gwneud y cais fodloni ACC y'i gwneir gyda chytundeb pob aelod arfaethedig arall o'r grŵp.

(7) Os yw ACC yn gwrthod cais i ddynodi grŵp, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad am ei benderfyniad i'r corff neu'r cyrff a wnaeth y cais.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "swm perthnasol" yw—

(a) swm o dreth;

(b) cosb o dan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth;

**[**[F1](ba) swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth;**]**

(c) llog ar swm o fewn paragraff (a) **[**[F2], (b) neu (ba)**]**.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 77(8)(ba) wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), rhl. 1(2), **Atod. para. 5(a)**

**F2** Geiriau yn a. 77(8)(c) wedi eu hamnewid (1.4.2018) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), rhl. 1(2), **Atod. para. 5(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 77 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 77 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(w)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 77.